Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 19eg Rhagfyr 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts (Is-gadeirydd), A. Jones, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, Mervyn Jones, H. Huws, A. Williams, E. Parry,

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	D. Jones, D. Owen (Clerc), R. Williams (Cynghorwr Sir)		
1.2	Yn absenoldeb y Clerc fe gymerwyd nodiadau o'r Cyfarfod gan y Cadeirydd, ond derbyniwyd nodyn o ddiweddariadau gan y clerc a nododd yn ei ymddiheuriad ei addewid y gydymffurfio a'r gofyniad i anfon y cofnodion allan o leiaf 7 diwrnod cyn cyfarfodydd yn y flwyddyn newydd .. derbyniwyd hyn		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Rhagfyr 2017**		
3.1	Cadarnhawyd I wneud y taliadau oedd i law ond nid oedd yn bosibl derbyn cyfrifon y Neuadd Goffa am nad oeddynt wedi eu cynnwys, Hyn i'w wneud yng Nghyfarfod Ionawr. Derbyniwyd Cyfrifon y Fynwent		
3.2	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio, derbyniwyd y rhai dderbyniwyd fel rhai cywir		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	Cafwyd diweddariad ar Faterion yn ymwneud a'r llifogydd gan y Cynghorwyr Sir Meirion Jones ac A. Mummery a gobeithir y bydd Adroddiad mwy manwl yn dilyn gan y Cyngor Sir yn dilyn eu hymchwiliadau		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Tachwedd 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd, ond disgwylir diweddariad yn y flwyddyn newydd yn y wasg.	**A. M**	
6.2	Cadarnhad wedi ei anfon i'r Contractwr I wneud y gwaith ar y cloc yn dilyn tynnu i lawr y Goeden Nadolig		
6.3	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - Cytunwyd i gynnal cyfarfod cyhoeddus yng Ngwanwyn 2018.		
6.4	Grantiau - Addewid i gwblhau ffurflen gais i Horizon yr wythnos honno	**D. Owen**	
6.5	Cysgodfa'n Bws ger Carreg y Bran - Wedi hysbysu priffyrdd o'r gordyfiant		
6.6	Biniau Baw Ci - CSYM am symud y bin ac am edrych ar y sefyllfa biniau baw ci		
6.7	Cais cynllunio Hen Lon Dyfnia Wedi rhoi Sylwadau'r Cyngor Bro i CSYM ac yn disgwyl ymateb gan David Price. Penderfynwyd ymholi gydag Un llais Cymru ac efallai WLGA ynglŷn â fformiwla buddiannau Cymdeithasol ceisiadau cynllunio.	**D. Owen**	
6.8	Gliniaduron ychwanegol - Y Cadeirydd wedi gweithredu a'r gliniaduron wedi ei derbyn		
6.9	Ymgyrch codi arian Neuadd Goffa - Angen trefnu cyfarfod gyda Dewi Williams (DEWIS) yn y flwyddyn newydd		
6.10	Calendr 2018 . Derbyn a chadarnhau'r pwysigrwydd i gadw at y dyddiadau penodol ond angen newid Cyfarfodydd Ionawr 16 Cyllid a'r Fynwent i'r 23ain		
7.0	**Ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor Sir 2018/19**		
7.1	Meirion Jones I anfon ymlaen sylwadau John Roberts ar Ymgynghoriad Cyllideb Ynys Môn ac ychwanegu'r neges sylfaenol gan Gyngor Llanfairpwll oedd codi'r Dreth yn hytrach na cholli gwasanaethau	**Meirion Jones**	
8.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
8.1	Ni dderbyniwyd cais cynllunio		
9.0	**Gohebiaeth**		

9.1	Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth		
10.0	**Materion Brys**		
10.1	Nodwyd Gan Gareth Cemlyn Jones nad oedd Elwyn Hughes yn fodlon bod yn Bencampwr Iaith ond am holi mwy am y swydd cyn gofyn I David James	**G. C. Jones**	
10.2	Meirion Jones yn anfodlon hefo giât y Maes Chwarae ac Alun Jones am drafod gyda Andre le Cras I gael un newydd efo Clasp er diogelwch		
10.3	Nodwyd gan Alun Jones fod AJ Industrial Cleaners wedi bod/neu yn llnau y lle Snwcer. Ond nodwyd nad ni sydd yn talu		
10.4	Nodwyd pryder na ddaeth ymateb i ni yn syth parthed trydedd bont cyn heno, a'i fod wedi dod ar ofyniad Hana Huws. Cytunodd Meirion Jones I anfon ymateb y Cyngor mewn cysylltiad â'r Cadeirydd a Hana Huws ac yn ei gylchredeg		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 30 Ionawr 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad